PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 1**

# *Cyfranogiad yng Nghymru*

# Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics | Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB<br>SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru** | **2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad**<br>**: Democratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.**<br>**: Y nifer sy'n pleidleisio; apathi; ymatal; plwraliaeth; elitaeth; dilysrwydd (legitimacy).**<br>**: Esboniadau o ran pam mae rhai pobl/grwpiau mewn cymdeithas yn cyfranogi mwy nag eraill; dadleuon ynghylch effeithiau hyn** |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig | 2.2.3: Ymddygiad pleidleisio. |
| Adnodd 5: Carfanau pwyso 1:<br>Nodweddion a mathau | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 6: Carfanau pwyso 2:<br>Dulliau Dylanwadu | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1:<br>Nodweddion a mathau | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2:<br>Dulliau Dylanwadu | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |

## Awdur yr adnodd:

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

# GWYBODAETH GRAIDD

## Democratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol

Beth yw hanfod democratiaeth? Gellir cynnig gwahanol atebion i'r cwestiwn hwn a bydd natur yr ymateb yn dylanwadu ar y farn o ran sut dylai systemau democrataidd weithio a natur cyfranogiad gwleidyddol dinasyddion mewn democratiaeth, gan gynnwys dylanwadu ar bwy ddylai lywodraethu ac ar benderfyniadau y rhai sydd yn llywodraethu. Un ffordd o wahaniaethu yw rhwng democratiaeth uniongyrchol a democratiaeth anuniongyrchol neu ddemocratiaeth gynrychioliadol. Gall y ddwy weithredu ochr yn ochr â'i gilydd ond mae ganddyn nhw nodweddion gwahanol.

I rai, yr unig ddemocratiaeth 'go iawn' yw pan fo dinasyddion yn cyfrannu'n uniongyrchol at broses o lunio penderfyniadau neu yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau eu hunain heb ddibynnu ar gynrychiolydd etholedig. I'r rhai sy'n annog democratiaeth 'gref', mae gweithgarwch a chyfranogi dinasyddion yn werthfawr a phwysig ac yn cydfynd â syniadau o ddemocratiaeth gyfranogol (*participatory democracy*) (e.e. John Mill). O'r perspectif hwn, mae **democratiaeth uniongyrchol**, fel refferenda, bod yn rhan o grŵp ymgyrchu neu arwyddo deiseb i senedd yn allweddol er mwyn i ddinasyddon gael dylanwad ar brosesau llywodraethu a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Ceir trafodaeth fanylach ar un o'r ffurfiau hyn, cyfranogi drwy refferendwm yn Adnodd 3.

> '*If democracy is interpreted as rule by the people, then the question of who participates in political decisions becomes the nature of democracy in society. Where few take part in decisions, there is little democracy; the more participation there is in decisions, the more democracy there is.*' (Verba a Nie, 1972: 1)

I eraill, mae **democratiaeth anuniongyrchol** yn ffordd fwy effeithiol o drefnu democratiaeth. Y berspectif hwn sy'n cael ei arddel gan Joseph Schumpeter a Robert Dahl ymysg eraill. Iddyn nhw, mae rôl weddol gyfyng i ddinasyddion gyfranogi mewn democratiaeth yn ddigonol. Mewn cymdeithasau cyfoes, honnir ei bod hi'n heriol iawn gwireddu lefelau uchel o ddemocratiaeth uniongyrchol. O ganlyniad, dadleuir dros roi pwyslais cryfach ar gynrychiolaeth er mwyn gweithredu democratiaeth. Drwy ethol unigolion i'w cynrychioli mewn etholiadau rheolaidd mae'r bobl yn trosglwyddo grym i gynrychiolwyr etholedig i'w cynrychioli ac i wneud penderfyniadau gwleidyddol ar eu rhan.

## Plwraliaeth neu elitiaeth?

Gellir gwahaniaethu hefyd rhwng plwraliaeth ac elitiaeth fel systemau o lywodraethu.

Cysylltir **plwraliaeth mewn democratiaeth** â'r syniad fod grym wedi ei wasgaru o fewn cymdeithas sy'n golygu y gall dinasyddion ddylanwadu ar y llywodraeth, yn sgil nodweddion fel:

: amrywiaeth o ddiddordebau gwahanol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd

: carfanau pwyso yn ceisio dylanwadu ar y llywodraeth ac ystod o fannau mynediad iddynt wneud hynny

: dim un grŵp neu garfan yn gallu allgáu un arall o'r broses wleidyddol

Gydag **elitiaeth**, byddai disgwyl gweld mwy o ganoli grym o fewn y wladwriaeth a'r cyfleon i ddinasyddion ddylanwadu ar benderfyniadau polisi yn gyfyngedig, yn sgil:

: system o lywodraeth yn cael ei dominyddu gan elît, boed yn aelodau o ddosbarth cymdeithasol penodol neu rhai o gefndir addysgol penodol, neu rai sy'n troi mewn cylchoedd cymdeithasol penodol sy'n dominyddu lefelau uchaf y llywodraeth, diwydiant a'r cyfryngau

Byddai rhai yn hawlio taw elitiaeth ac nid plwraliaeth yw prif nodwedd y system wleidyddol yn y DU ac o'r herwydd taw rôl weddol symbolaidd sydd gan y system ddemocrataidd. Yn yr un modd, bydd y ddadl yn parhau o ran y cydbwysedd priodol rhwng ffurfiau o ddemocratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Golyga hyn hefyd y bydd y trafod yn parhau o ran y ffyrdd a'r graddau y dylai / gall dinasyddion gyfranogi'n uniongyrchol yn wleidyddol.

## Pwy sy'n pleidleisio?

Gwelir pwyslais cynyddol ar ystod o ddulliau o gyfranogi yn wleidyddol y tu hwnt i bleidleisio er mwyn ceisio cael dylanwad, er enghraifft cysylltu â gwleidyddion, cyfrannu'n ariannol at ymgyrchoedd a gweithredu ehangach ar y cyd drwy fod yn aelod o garfan bwyso neu fudiad cymdeithasol. Tra byddai'r rhai sydd o blaid ffurfiau mwy uniongyrchol o ddemocratiaeth yn cefnogi'n gryf y ddadl bod mwy i ddemocratiaeth nag etholiadau yn unig, a mwy i gyfranogaeth na phleidleisio, pleidleisio yw'r dull ffurfiol amlycaf y gall ddinasyddion gyfranogi ac mae'n hynod o bwysig mewn democratiaeth gynrychioliadol. O ganlyniad, mae'r **ganran bleidleisio**, nifer y pleidleisiau a fwriwyd mewn etholiad fel canran o'r etholaeth sydd wedi cofrestru i bleidleisio, yn cael ei hystyried yn fesur pwysig o gyfranogi gwleidyddol mewn democratiaeth.

I rai, mae canran bleidleisio uchel yn arwydd o system wleidyddol iach, system sy'n adlewyrchu barn y bobl ac iddi lefelau uchel o ddilysrwydd ymysg y cyhoedd. Dylid nodi fod llawer o amrywio rhwng y ganran bleidleisio mewn etholaethau gwahanol yn yr un etholiad yn aml oherwydd pwysigrwydd materion lleol mewn ardal benodol yn ystod etholiad (e.e. dyfodol yr ysbyty lleol), neu'r graddau mae etholwyr mewn etholaethau gwahanol yn credu y gall eu pleidlais nhw wneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad yn y pendraw.

Gwelir patrwm o lefelau isel ac o ddirywiad yn y ganran bleidleisio yn y Deyrnas Unedig ac yn y mwyafrif o ddemocratiaethau'r Gorllewin. Golyga hyn fod twf yn y nifer sy'n **ymatal rhag pleidleisio** gan ddewis peidio â lleisio eu barn yn y broses o ddewis pa blaid sydd am lywodraethu. Tra bo rhai yn dadlau y gellir deall ymatal pleidlais fel arwydd o fodlonrwydd, yr argraff yn fwy cyffredinol yw bod canran isel pleidleisio yn bryder ac yn broblem ddifrifol i ddemocratiaethau'r Gorllewin. Gall ymatal rhag pleidleisio adlewyrchu **apathi gwleidyddol**, sef diffyg diddordeb neu frwdfrydedd tuag at gyfranogi yn y system wleidyddol, diffyg dealltwriaeth wleidyddol, a theimlad o ddieithriad a llai o ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a'r system wleidyddol. Yn gysylltiedig, mae'n bosib taw rheswm arall dros ymatal rhag pleidleisio yw'r gred nad yw pleidleisio mewn etholiad penodol neu bleidleisio yn gyffredinol yn debygol o wneud gwahaniaeth.

O ganlyniad, rhai o brif oblygiadau negyddol lefelau isel o bleidleisio yw **cwestiynu dilysrwydd** (*legitimacy*) y llywodraeth a'i mandad etholiadol, a dilysrwydd ehangach y system wleidyddol a'r sefydliadau gwleidyddol: a yw'r boblogaeth yn derbyn y llywodraeth a'r sefydliadau gwleidyddol ac yn derbyn bod eu defnydd o rym cyhoeddus yn briodol?

Ymysg y **ffactorau sy'n dylanwadu ar y ganran bleidleisio** mae'r canlynol:

: Pa mor **ymylol** yw sedd benodol, neu etholiad (oes cyfle gwirioneddol am newid?)

: **Natur y system etholiadol** a ddefnyddir (ydi pobl yn credu y bydd eu pleidlais nhw yn cyfrif?)

: **Pynciau neu anghydfod** lleol, cenedlaethol a gwladwriaethol : dwyster yr ymgyrchu ar faterion penodol

: Sylw'r **wasg a'r cyfryngau** (gall graddau sylw'r wasg i un etholaeth neu un etholiad effeithio ar y ganran sy'n pleidleisio)

## Pam mae rhai grwpiau'n cyfranogi'n fwy nag eraill?

Mae'r ganran bleidleisio hefyd yn amrywio yn **ôl ffactorau fel oedran, rhywedd, dosbarth cymdeithasol ac ethnigrwydd**. Gan edrych ar dueddiadau rhyngwladol o ran pwy sy'n pleidleisio, ac wrth geisio egluro pwy sy'n pleidleisio neu beidio mae Norris (2002) yn gwahaniaethu rhwng effeithiau strwythurol, diwylliannol ac asiant. Byddai'r safbwyntiau hyn yn dadlau nad yw pobl yn pleidleisio un ai am nad ydynt yn gallu, neu oherwydd nad ydyn nhw'n fodlon gwneud, neu oherwydd nad oes neb wedi gofyn iddyn nhw. Ei chasgliad yw taw yn aml, cyfuniad o ffactorau sy'n egluro orau pwy sy'n cyfranogi ai peidio (Norris, 2002).

Wrth gyfeirio at **effeithiau strwythurol** pwysleisir gwahaniaethau ac anghydraddoldeb cymdeithasol o ran cymwysterau addysgol, statws economaidd-gymdeithasol, rhywedd ac oedran. Eglurir eu bod yn arwain at anghydraddoldeb mewn sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amser. O'r herwydd, dadleuir bod rhai yn fwy abl na'i gilydd i fanteisio ar gyfleon i gyfranogi. Er enghraifft, gall adnoddau effeithio ar gyfranogaeth wleidyddol, e.e. yr amser a'r gallu i drefnu mudiad cymdeithasol, ond mae'n berthnasol hefyd o ran y parodrwydd i bleidleisio.

**Oedran** yw un o'r prif ffyrdd o egluro pa mor debygol yw unigolyn o gyfrannu'n wleidyddol. Ceir cydnabyddiaeth ers tro byd o'i ddylanwad ar debygolrwydd pobl i bleidleisio, a yw unigolyn yn aelod o blaid wleidyddol, ac o ran ymwneud â mudiadau gwirfoddol a charfanau. Gwahaniaethir rhwng yr effaith cylchred bywyd (*life cycle effect*) ac effaith cenhedlaeth (*generational effect*). Effaith cylchred bywyd yw bod pobl yn fwy tebygol o bleidleisio wrth fynd yn hŷn a dechrau setlo, cael swyddi mwy cyfrifol, prynu tŷ a dechrau teulu. O ran effaith cenhedlaeth, dadleuir bod bwlch rhwng y cenedlaethau gyda rhai cenedlaethau'n fwy neu'n llai tebygol o bleidleisio, gyda chenedlaethau iau ymysg y lleiaf tebygol i bleidleisio. Y perygl o'r herwydd fyddai bod patrymau o niferoedd pleidleisio isel yn datblygu'n norm.

**Rhywedd**. Yn yr 1970au roedd tueddiad i feddwl am rywedd unigolyn fel un o'r ffactorau demograffig a chymdeithasol oedd yn dylanwadu ar lefel cyfranogi gwleidyddol a phleidleisio. Bellach, mae datblygiadau cymdeithasol wedi cael gwared â llawer o'r rhesymau sydd wedi atal menywod rhag pleidleisio yn y gorffennol, er enghraifft lefelau addysg.

**Statws economaidd-gymdeithasol**. Y duedd yn y gorffennol oedd cysylltu cyfranogi a phleidleisio gyda dosbarth. Bellach, gellir dehongli hyn yn ehangach o ran effaith statws economaidd-gymdeithasol, sy'n golygu effaith lefelau addysg, incwm a dosbarth cymdeithasol. Bellach, mae'r ffactorau yma'n cael eu hystyried ymysg y rhai sy'n rhagweld orau a fydd unigolyn yn pleidleisio ac yn cyfranogi ai peidio. Awgryma statws economaidd-gymdeithasol uwch fod gan unigolyn fwy o amser ac adnoddau i gyfranogi.

O ran **effeithiau diwylliannol**, mae'r pwyslais ar y modd y gall agweddau a gwerthoedd ddylanwadu ar safbwyntiau tuag at y broses etholiadol a'r broses wleidyddol o ran gwerthoedd sifig, diddordeb gwleidyddol ac ymlyniad pleidiol. Yn gysylltiedig â hyn mae lefel ymddiriedaeth unigolion mewn sefydliadau gwleidyddol e.e. senedd a system gyfreithiol ac effaith hynny ar eu parodrwydd i bleidleisio a chyfranogi. Mae hefyd yn cynnwys faint o ddiddordeb sydd ganddynt mewn materion gwleidyddol ac i ba raddau mae ymdeimlad o gyswllt cryf ganddynt â phlaid wleidyddol neu grwpiau gwleidyddol eraill.

Yn olaf mae **effeithiau asiant**, dylanwad cyrff sy'n annog pobl i bleidleisio, er enghraifft y cyfryngau, cyrff penodol neu rwydweithiau sy'n dylanwadu ar unigolion, boed yn deulu, cydweithwyr, ffrindiau neu ddylanwad pleidiau, undebau llafur neu fudiadau. Yn ôl y disgwyl, mae cyswllt rhwng lefelau uchel o ymwneud gwleidyddol a bod yn weithgar mewn mudiad neu aelodaeth o blaid neu fudiadau.

## Cymru: Oes dilysrwydd gan y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru?

Mae gallu cyrff democrataidd a sefydliadau gwleidyddol i ennyn cefnogaeth gyhoeddus etholwyr fod ganddyn nhw'r awdurdod i lywodraethu yn hollbwysig er mwyn sicrhau eu dilysrwydd. Beth yw sefyllfa'r Cynulliad Cenedlaethol? Wrth ystyried y ganran bleidleisio yn y Refferendwm ar Ddatganoli i Gymru yn 1997 ac mewn etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, byddai'n hawdd deall pam mae rhai wedi gofyn a yw'r canrannau isel yn cwestiynu dilysrwydd y Cynulliad.

Beth mae'r dystiolaeth ehangach yn ei ddangos? Un o'r dadleuon a gynigir yw bod y niferoedd pleidleisio isel yn adlewyrchu'r un problemau â'r lleihad ehangach mewn pleidleisio mewn etholiadau yn y DU. Ymhellach, mae tueddiad ehangach i'r niferoedd pleidleisio fod yn is mewn etholiadau y tu hwnt i'r lefel wladwriaethol (e.e. mewn etholiadau lleol ac etholiadau rhanbarthol) mewn gwledydd eraill.

Hefyd, mae gwahanol astudiaethau a data yn cynnig ffyrdd gwahanol o asesu'r gefnogaeth gyhoeddus i ddatganoli yng Nghymru.

- Mae arolygon yn awgrymu bod y gwrthwynebiad cyhoeddus i ddatganoli ac i fodolaeth y Cynulliad wedi lleihau. Gwelwyd cynydd yn y nifer sydd am weld y Cynulliad yn cael y dylanwad mwyaf dros lywodraethu Cymru. Roedd y mwyafrif o blaid grymoedd pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol yn refferendwm 2011 (er bod y ganran bleidleisio'n isel) yn adlewyrchu graddau'r twf yn y gefnogaeth i ddatganoli i Gymru sydd wedi datblygu ers refferendwm 1997.
- Mae ymchwil gan Scully a Wyn Jones (2015) wedi awgrymu ar sail arolygon bod gan bobl Cymru lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn gwleidyddion yn y Cynulliad ac yn Llywodraeth Cymru o'u cymharu â'r un sefydliadau ar lefel San Steffan.
- Fodd bynnag, er gwaetha'r twf mewn cefnogaeth i ddatganoli a chefnogaeth gyhoeddus ehangach i hunanlywodraeth, dangosa gwaith Scully a Wyn Jones (2015) ar sail dadansoddi arolygon nad yw agweddau cyhoeddus yn hollol gefnogol. Nid yw'r cyhoedd yn gadarn ei barn fod datganoli wedi gwneud llawer o wahaniaeth o ran effeithio ar bolisïau fel addysg, iechyd ayyb, na chwaith ei fod wedi gwella'r modd mae Cymru'n cael ei llywodraethu, na rhoi mwy o lais i bobl gyffredin. Er mwyn cynyddu'r gefnogaeth, yr her i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru felly yw darbwyllo'r cyhoedd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar y broses o lywodraethu yng Nghymru.

'*Opposition to devolution and to the very existence of the Assembly has definitely fallen substantially since the 1997 referendum. Levels of trust in the institution also appear to have improved and to now be higher than trust in UK-level political institutions; and there is clear majority support for the NAW to retain at least its current scope of responsibilities. On the other hand, ...the status of the NAW is still rather more conditional in the minds of many people in Wales than that of either the local or UK levels of government. This suggests that a secure public legitimacy for the Assembly is yet to be wholly established.*' (Scully a Wyn Jones, 2015)

## LLYFRYDDIAETH

Verba, S. Nie, N. H. (1972). *Participation in America: Political Democracy and Social Equality* (Chicago: University of Chicago Press)

Norris, P. (2002). *Democratic Phoenix: Reinventing Political Activism* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Scully, R., Wyn Jones, R. (2015). 'The Public Legitimacy of the National Assembly for Wales'

https://www.psa.ac.uk/sites/default/files/1_1_0.pdf (fersiwn papur cynhadledd o erthygl gafodd ei chyhoeddi yn y *Journal of Legislative Studies* fan hyn).